OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2946 (Cy.319)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - - 6 Rhagfyr 2011

Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 5(4) ac 17 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Ebrill 2012.

Diwygiadau i Atodlen 2 i'r Mesur

2. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Mesur wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(1) Ym mharagraff 5 o'r Atodlen yn lle'r tabl a geir yno rhodder y tabl a ganlyn—

"**Anifail**	**Cyfradd uchaf yr elfen gynhyrchu ar gyfer pob anifail**
Gwartheg	£ 6.91
Lloi	£ 0.50
Defaid	£ 1.00
Moch	£ 1.67".

(2) Ym mharagraff 6 o'r Atodlen yn lle'r tabl a geir yno rhodder y tabl a ganlyn—

(**1**) 2010 mccc 3.